# Adolygiad Dilynol Gofal Sylfaenol—Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Blwyddyn archwilio: 2022

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 3748A2023

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno**

Cyflwyniad 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 7

**Adroddiad manwl**

Gweithredu argymhellion archwilio blaenorol 9

Gwelededd ar lefel bwrdd a chanolbwyntio ar ofal sylfaenol 15

Y capasiti a'r gallu i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol 17

**Atodiadau**

Atodiad 1—Dulliau archwilio 19

Atodiad 2—argymhellion archwilio 2019 21

Atodiad 3—Ymateb sefydliadol 24

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Gofal sylfaenol yw'r pwynt cyswllt cyntaf i lawer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Mae'n cwmpasu amrywiaeth eang o wasanaethau, a ddarperir yn y gymuned gan amrywiaeth o ddarparwyr, gan gynnwys Meddygon Teulu, Fferyllwyr, Deintyddion, Optometryddion, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill o'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gwirfoddol.

2 Yn 2018–19, adolygodd yr Archwilydd Cyffredinol ofal sylfaenol ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar feddygaeth deulu. Roedd y gwaith hwnnw'n canolbwyntio ar gynllunio strategol, buddsoddiad, gweithlu, goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth, a pherfformiad. Canfu ein Hadolygiad o Ofal Sylfaenol 2019 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg[1] (y Bwrdd Iechyd) fod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir ar gyfer gofal sylfaenol ynghyd ag arweinyddiaeth a threfniadau goruchwylio clystyrau cryf, ond nad oedd adferiad ariannol na gofal eilaidd yn tynnu pwyslais oddi ar waith cynllunio gofal sylfaenol ac nad oedd y perfformiad yn gryf.

3 Mae'r dirwedd o ran gofal sylfaenol yng Nghymru wedi newid ers ein hadolygiad gwreiddiol yn 2019. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol—Cymru iachach. Mae'r cynllun yn tynnu sylw at swyddogaeth hanfodol gofal sylfaenol o ran helpu i wireddu'r uchelgais o greu dull system cyfan di-dor gyda gwasanaethau sydd wedi eu cynllunio o amgylch pobl, ar sail eu hanghenion, gan eu cefnogi i aros yn iach yn hytrach na pheidio â darparu triniaeth oni bai eu bod yn mynd yn sâl. Mae hyn yn golygu bod mwy o wasanaethau a ddarperir mewn ysbyty yn draddodiadol yn cael eu symud i'r gymuned i ddarparu gofal gartref neu'n agosach at y cartref er mwyn tynnu pwysau oddi ar ysbytai a lleihau'r amser y mae pobl yn aros i gael eu trin.

4 Ymateb a chyfraniad gofal sylfaenol Cymru gyfan i 'Cymru Iachach' yw'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol. Cymerir y rhain drwy chwe ffrwd waith y disgwylir i fyrddau iechyd eu gweithredu ar lefel leol:

- canolbwyntio ar lesiant ac atal 'afiechyd';
- datblygu mynediad 24/7 at wasanaethau;
- manteisio ar ddata a thechnolegau digidol;
- cryfhau'r gweithlu a datblygiad sefydliadol;
- gwella cyfathrebu ac ymgysylltu; a
- datblygu gweledigaeth 'lefel clwstwr' a galluogi gwasanaethau i gael eu trawsnewid.

[1] Roedd ein hadolygiad yn 2019 yn canolbwyntio ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Daeth y Bwrdd Iechyd yn Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ym mis Ebrill 2019 ar ôl i wasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr gael eu trosglwyddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

5 Ym mis Chwefror 2023, nododd y Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol, sy'n goruchwylio'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, fod y gwaith hwn yn mynd rhagddo ar gyflymder amrywiol ym mhob ardal bwrdd iechyd. Ochr yn ochr â hyn, mae pryderon ehangach ynghylch capasiti Timau Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog mewn byrddau iechyd i gyflawni blaenoriaethau sefydliadol, yn ogystal â gwelededd a phwyslais ar ofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd.

6 Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau ar raglen diwygio contractau uchelgeisiol ar draws y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Deintyddiaeth, Fferylliaeth Gymunedol ac Optometreg er mwyn:

- sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol yn gynaliadwy;
- ei gwneud yn haws i gleifion gael gafael ar wasanaethau gofal sylfaenol;
- atgyfnerthu'r pwyslais ar ansawdd ac atal;
- galluogi gweithio clwstwr er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau;
- cryfhau'r gweithlu.

7 Cafodd pandemig COVID-19 effaith ddifrifol ar wasanaethau gofal sylfaenol. Er bod yr argyfwng iechyd cyhoeddus uniongyrchol wedi gostegu, mae darparwyr gofal sylfaenol yn parhau i wynebu heriau wrth iddynt geisio adnewyddu, adfer ac ad-drefnu eu gwasanaethau i ddiwallu anghenion a disgwyliadau'r cyhoedd mewn byd ôl-bandemig.

8 Canolbwyntiodd ein hadolygiad yn bennaf ar asesu i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu ein hargymhellion ar gyfer 2019. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gwneud rhywfaint o waith ychwanegol er mwyn asesu i ba raddau:

- y mae'r Bwrdd a/neu ei bwyllgorau yn ystyried yn rheolaidd faterion sy'n ymwneud â chynllunio, perfformiad, risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd; ac
- y mae gan Dîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog y Bwrdd Iechyd y capasiti a'r gallu priodol (o ran gwybodaeth, sgiliau a phrofiad) i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn ogystal â rheoli anghenion gweithredol a busnes o ddydd i ddydd.

9 Crynhoir y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn **Atodiad 1**.

# Negeseuon allweddol

10 Ar y cyfan, canfuom **fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da i fynd i'r afael â'n hargymhellion archwilio blaenorol. Mae wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer dadansoddi cynlluniau ariannol, a ffyrdd newydd o weithio, ac mae'n gwneud cynnydd â'r gwaith o gryfhau Cydweithfeydd Clwstwr Lleol ac i symud adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol. Fodd bynnag, mae capasiti gwasanaethau gofal sylfaenol canolog yn parhau i fod o dan bwysau, ac nid oes gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth gynhwysfawr o'i weithlu gofal sylfaenol. Cyfyngedig yw'r oruchwyliaeth a'r gwaith craffu ar ofal sylfaenol**

**yn y Bwrdd a'r pwyllgorau, ac mae angen cryfhau'r broses o adrodd ar berfformiad a chanlyniadau gofal sylfaenol.**

## Gweithredu argymhellion archwilio blaenorol

11 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â chamau sy'n ymwneud â chynlluniau ariannol a ffyrdd newydd o weithio a'i fod yn gwneud cynnydd â'r gwaith o gryfhau Cydweithfeydd Clwstwr Lleol ac i symud adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol. Fodd bynnag, nid oes ganddo ddealltwriaeth gynhwysfawr o'i weithlu gofal sylfaenol.**

12 Mae gan y Bwrdd Iechyd broses glir ar gyfer ystyried costau ariannol yn ei brosiectau a'i gynlluniau gofal sylfaenol, sy'n cefnogi ei strategaeth ariannol ehangach. Mae'n gwneud cynnydd sylweddol i ddatblygu a chryfhau ei Gydweithfeydd Clwstwr Lleol a'i drefniadau hyfforddi a datblygu arweiniol ar gyfer clystyrau. Yn awr, dylai ddefnyddio'r cyfle i fyfyrio ar aeddfedrwydd clystyrau ac i wella effeithiolrwydd ei drefniadau ymhellach.

13 Mae'r Bwrdd Iechyd yn llwyddo i symud rhai adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, ond araf yw'r cynnydd o hyd, ac mae wedi ei chael hi'n anodd sefydlu dealltwriaeth sylfaenol o wir gost gofal sylfaenol. Er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i ddatblygu gofynion y gweithlu ar gyfer gofal sylfaenol, mae cael dealltwriaeth gynhwysfawr o'i weithlu gofal sylfaenol yn dibynnu i raddau helaeth ar y data sydd ar gael ar lefel genedlaethol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwerthuso ac yn prif ffrydio ffyrdd newydd o weithio yn llwyddiannus ac mae wedi gwella ei drefniadau ar gyfer rhannu dysg.

## Gwelededd ar lefel bwrdd a chanolbwyntio ar ofal sylfaenol

14 Canfuom, **er bod gofal sylfaenol yn ymddangos yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd, nad oes strategaeth gofal sylfaenol pwrpasol na gweledigaeth hirdymor. Cyfyngedig yw'r oruchwyliaeth a'r gwaith craffu ar heriau sy'n wynebu gofal sylfaenol yn y Bwrdd, a gallai ystyriaeth mewn pwyllgorau gael ei gwreiddio'n fwy systematig mewn busnes arferol. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol ar gyfer monitro'r broses o gyflawni cynlluniau gofal sylfaenol, ond mae angen cryfhau'r gwaith goruchwylio perfformiad.**

15 Mae gofal sylfaenol yn elfen o Gynllun Tymor Canolig Integredig 2023–26 y Bwrdd Iechyd sy'n cyd-fynd yn glir â blaenoriaethau cenedlaethol. Fodd bynnag, nid oes strategaeth bwrpasol ac nid yw gwasanaethau gofal sylfaenol yn cael eu hadlewyrchu mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol eraill, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar wasanaethau acíwt.

16 Nid yw materion sy'n ymwneud â gofal sylfaenol wedi eu gwreiddio'n llawn ym musnes arferol y Bwrdd a'r pwyllgorau. Er bod y Bwrdd yn ystyried adroddiadau sy'n cyfeirio at wasanaethau gofal sylfaenol, nid yw'n cael adroddiadau gofal sylfaenol pwrpasol a chyfyngedig yw'r gwaith goruchwylio a chraffu ar yr wybodaeth a gyflwynir. Heblaw am adroddiad amlygu gofal sylfaenol chwarterol i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, gwan yw'r sylw a roddir i ofal sylfaenol mewn adroddiadau perfformiad, cyllid a gweithlu.

17 Mae nifer cyfyngedig o fesurau perfformiad gofal sylfaenol a gynhwysir o hyd yn adroddiad Perfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd, ond mae diffyg targedau perfformiad a sylwebaeth ar gynnydd yn atal dealltwriaeth a gwaith monitro effeithiol ar y perfformiad gofal sylfaenol.

18 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol ar gyfer monitro cynnydd cynlluniau gofal sylfaenol drwy'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig/Cynllun Blynyddol. Er bod y diweddariad yn rhoi crynodeb defnyddiol o'r holl flaenoriaethau, y statws o ran eu cyflawni, mae cyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd fod yn gliriach ar fesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac adrodd er mwyn helpu i ddeall pa effaith neu wahaniaeth y mae'n ei wneud ac a yw'n arwain at ganlyniadau a phrofiadau gwell i gleifion.

### Y capasiti a'r gallu i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol

19 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd strwythur gofal sylfaenol effeithiol ar y cyfan, gyda llinellau atebolrwydd clir. Fodd bynnag, mae adnoddau a chapasiti yn ei Dîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog yn parhau i fod dan bwysau oherwydd blaenoriaethau lleol a chenedlaethol sy'n cynyddu, ac mae angen cryfhau'r trefniadau cynllunio olyniaeth.**

20 Mae gan Grŵp Gwasanaeth Sylfaenol, Cymunedol a Therapïau y Bwrdd Iechyd linellau atebolrwydd clir i'r Prif Swyddog Gweithredu y mae strwythur rheoli effeithiol yn ei gefnogi. Fodd bynnag, mae pwyslais ar berfformiad gofal eilaidd a risgiau yn cael blaenoriaeth dros ofal sylfaenol yn aml. Mae gan y Tîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol[2] staff profiadol a galluog, ond mae llwythi gwaith cynyddol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn rhoi pwysau ar rai o'r staff ac yn effeithio ar eu gallu i reoli'r anghenion gweithredol a busnes o ddydd i ddydd.

21 Er bod uwch-arweinwyr gofal sylfaenol yn trafod cynllunio olyniaeth yn rhan o drafodaethau gwerthuso, cyfyngedig oedd y dystiolaeth a ganfuom fod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau olyniaeth yn y Tîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, sy'n cyflwyno rhai risgiau i wydnwch y tîm. Mae datblygu cynllun gweithlu gofal sylfaenol yn rhoi cyfle i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r risgiau hyn.

# Argymhellion

22 Crynhoir statws ein hargymhellion archwilio 2019 yn **Arddangosyn 1** ac fe'i nodir yn fanylach yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 1: statws ein hargymhellion ar gyfer 2019**

[2] Cyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaethau Cyswllt, sef pennaeth gofal sylfaenol a phennaeth datblygu clystyrau a gefnogir gan uwch-dîm rheoli, sy'n rheoli'r tîm gofal sylfaenol a datblygu clystyrau.

| Gweithredwyd | Cyfredol | Dim camau gweithredu | Disodlwyd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 4 | 6 | | 1 | **11** |

23 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 2**. Mae'r argymhellion hyn yn ymgorffori'r argymhellion agored sy'n weddill o'r adolygiad gwreiddiol fel y'u nodir yn yr adroddiad hwn. Nodir ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 2: Argymhellion 2023**

**Argymhellion**

A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu aeddfedrwydd cymharol clystyrau, er mwyn myfyrio ar y trefniadau presennol, mynd i'r afael ag unrhyw fylchau posibl a chryfhau cefnogaeth y Bwrdd Iechyd yn ôl yr angen.

A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio gwybodaeth gyllidebol 2023–24 fel llinell sylfaen ar gyfer cost gofal sylfaenol er mwyn sicrhau bod modd adrodd yr adnoddau a newidir.

A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd archwilio a gweithredu ffyrdd o ehangu ei ddefnydd o wybodaeth bresennol am y gweithlu ac archwilio sut y gall gasglu data gweithlu ychwanegol am y tîm gofal sylfaenol ehangach.

A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn codi proffil gofal sylfaenol yn y sefydliad.

A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd wella'r broses o oruchwylio perfformiad mewn gofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau drwy wneud yr hyn a ganlyn:

5.1. cynyddu'r sylw ar berfformiad gofal sylfaenol yn ei Adroddiad Perfformiad Integredig;

5.2. cynyddu'r pwyslais ar ganlyniadau a phrofiad.

A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei Dîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol drwy:

6.1. adolygu'r adnoddau sydd ar gael er mwyn sicrhau bod ganddo'r capasiti angenrheidiol i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, ochr yn ochr â diwallu anghenion gweithredol a busnes o ddydd i ddydd; a

6.2. datblygu cynllun olyniaeth.

# Adroddiad manwl

## Gweithredu argymhellion archwilio blaenorol

24 Gwnaethom ystyried cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran gweithredu ein hargymhellion archwilio 2019. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar yr hyn a ganlyn:

- cynllunio ariannol (Argymhelliad 1, 2019).
- clystyrau gofal sylfaenol (Argymhellion 2a a b, 2019).
- buddsoddi mewn gofal sylfaenol (Argymhelliad 3, 2019).
- gweithlu gofal sylfaenol (Argymhelliad 6, 2019).
- ffyrdd newydd o weithio (Argymhellion 7a, b ac c, 2019).

25 Trafodir argymhellion sy'n ymwneud â goruchwylio gofal sylfaenol yn y Bwrdd a'r pwyllgorau (argymhellion 4, 5a, b ac c, 2019) yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

26 Ar y cyfan, canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â chamau sy'n ymwneud â chynlluniau ariannol a ffyrdd newydd o weithio i ddatblygu Cydweithfeydd Clwstwr Lleol gan wneud cynnydd â'r gwaith o'u cryfhau, ac i symud adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol ac i sefydlu gwaelodlin ariannol. Fodd bynnag, nid oes ganddo ddealltwriaeth gynhwysfawr o'i weithlu gofal sylfaenol.**

### Cynllunio ariannol

27 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd yn dadansoddi costau ariannol mewn gofal sylfaenol ac yn cynnal dadansoddiad cost ariannol rheolaidd i gefnogi cynlluniau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau eu bod yn fforddiadwy a dangos sut y bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu hariannu (Argymhelliad 1, 2019).

28 Canfuom fod gan **y Bwrdd Iechyd broses glir ar gyfer ystyried y costau ariannol ac ariannu ei brosiectau a'i gynlluniau gofal sylfaenol, sy'n cefnogi ei strategaeth ariannol ehangach.**

29 Mae gan y Bwrdd Iechyd broses glir ar gyfer ystyried costau ariannol yn ei brosiectau a'i gynlluniau gofal sylfaenol. Mae prosiectau newydd a gynigir gan Gydweithfeydd Clwstwr Lleol[3] yn gofyn am gwblhau ffurflen gynnig safonedig sy'n nodi gwybodaeth ariannol allweddol sy'n galluogi asesiad o gost, fforddiadwyedd ac effaith newidiadau arfaethedig ar gyllid. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gydweithfeydd Clwstwr Lleol ddangos sut mae'r cynigion yn gyson ag amcanion yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd, a sut bydd y cynnydd yn cael ei fonitro gan ddefnyddio ymagwedd Nodau, Dulliau a Chanlyniadau y

[3] Dull cynllunio a darparu lleol mewn datblygu clwstwr cyflym yw Cydweithfeydd Clwstwr Lleol (clystyrau gofal sylfaenol gynt). Maent yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r cydweithfeydd proffesiynol ynghyd â chynrychiolwyr o'r trydydd sector, iechyd meddwl, a rheoli meddyginiaethau.

sefydliad. Ni chymeradwyir cynigion prosiect newydd oni bai bod strategaeth ymadael priodol yn cael eu cefnogi. Mae'r Grŵp Cynllunio Clystyrau Cyfan[4] yn ystyried ac yn blaenoriaethu'r holl gynigion yn seiliedig ar gyfeiriad strategol lleol a chenedlaethol.

30 Mae pob Cydweithfa Clwstwr Lleol yn datblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar sail blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r cynlluniau'n nodi blaenoriaethau a chamau gweithredu clwstwr ar gyfer 2023–24 ochr yn ochr â'r gweithlu a'r goblygiadau ariannol cysylltiedig. Mae pob cynllun yn cynnwys datganiad o wariant y cytunwyd arno sy'n nodi cyllideb Cydweithfa Clwstwr Lleol, dyraniadau cyllid a gwariant y cytunwyd arno o'u cymharu â phrosiectau a swyddogaethau. Er bod y mwyafrif o'r Cydweithfeydd Clwstwr Lleol yn rhagweld y byddent yn gweithredu o fewn eu cyllideb y cytunwyd arni, nodwn fod Cynllun Tymor Canolig Integredig Cydweithfa Clwstwr Lleol y Cymoedd Uchaf wedi rhagweld diffyg bach.

31 Mae pob un o wyth Cynllun Tymor Canolig Integredig y Gydweithfa Clwstwr Lleol yn cael eu cyfuno mewn cynllun Grŵp Cynllunio Clystyrau Cyfan ar gyfer 2023–26 sy'n gyson â Chynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd ac yn amlinellu meysydd blaenoriaeth y Gydweithfa Clwstwr Lleol. Mae'r cynllun hefyd yn nodi prosiectau arfaethedig sy'n cael eu blaenoriaethu ar sail gofynion cyllido, er enghraifft, pan fo prosiectau i'w cyflawni gan ddefnyddio adnoddau presennol, a nodir ar gyfer buddsoddiad â blaenoriaeth, neu na fyddant yn cael eu cefnogi oni bai bod arian ychwanegol a nodir. **Rydym yn ystyried bod Argymhelliad 1, 2019 wedi ei weithredu.**

## Cydweithfeydd clwstwr lleol

32 Gwnaethom ystyried a oedd y Bwrdd Iechyd wedi adolygu aeddfedrwydd cymharol clystyrau, er mwyn datblygu a gweithredu cynllun i gryfhau ei gefnogaeth i glystyrau pan fo hynny'n angenrheidiol (Argymhelliad 2a, 2019) a gwnaethom ystyried hefyd a oedd y Bwrdd Iechyd wedi annog pob arweinydd clwstwr i ddilyn cwrs Arweinwyr Gofal Sylfaenol Hyderus (Argymhelliad 2b, 2019).

33 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol i ddatblygu a chryfhau ei Gydweithfeydd Clwstwr Lleol a'i drefniadau hyfforddi a datblygu arweiniol ar gyfer clystyrau. Yn awr, dylai ddefnyddio'r cyfle i fyfyrio ar aeddfedrwydd clystyrau ac i wella effeithiolrwydd ei drefniadau ymhellach.**

34 Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu adnoddau a buddsoddiad sylweddol er mwyn datblygu a chryfhau ei Gydweithfeydd Clwstwr Lleol a gweithredu gofynion

[4] Mae Grwpiau Cynllunio Clystyrau Cyfan yn galluogi cynrychiolwyr clystyrau i ddod at ei gilydd ar ôl troed poblogaeth y sir i gydweithredu â chynrychiolwyr byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, arbenigwyr iechyd cyhoeddus, cynllunwyr ac ati i drosi gweithgarwch dan arweiniad clwstwr yn flaenoriaethau Bwrdd Iechyd a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam[5]. Mae wedi sefydlu wyth Cydweithfa Clwstwr Lleol sydd ag aelodaeth amlddisgyblaethol gan gynnwys cynrychiolaeth meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr, optometreg, nyrsio oedolion a phlant, rheoli meddyginiaethau, iechyd meddwl a thrydydd sector.

35 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi ac ariannu Cyfarwyddwr Clinigol cyffredinol ac Arweinwyr Clwstwr ar gyfer pob un o'r Cydweithfeydd Clwstwr Lleol ac mae'n darparu amser uwch-glinigwyr a rheolwyr o'i Grŵp Gwasanaeth Sylfaenol, Cymunedol a Therapïau i gefnogi datblygiad. Hefyd, mae tîm datblygu clwstwr profiadol sy'n cefnogi Cydweithfeydd Clwstwr Lleol gyda gwaith datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig, a monitro, gweithredu prosiectau, rheoli ariannol, cynnig allanol, recriwtio, caffael a chyfarfodydd clwstwr. Mae'r Grŵp Datblygu Clwstwr a arweinir gan Brif Weithredwr hefyd yn darparu platfform fel y gall cyfarwyddwyr gweithredol, uwch-reolwyr ac arweinwyr clwstwr ymgysylltu â datblygiad Cydweithfa Clwstwr Lleol.

36 Sefydlodd y Bwrdd Iechyd Grŵp Cynllunio Clystyrau Cyfan yn ffurfiol ym mis Mehefin 2022 sy'n cynnwys cynrychiolaeth Bwrdd Iechyd, awdurdod lleol, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol a Llais[6]. Ers ei sefydlu, mae wedi ystyried sawl blaenoriaeth, gan gynnwys:

- diben a nodau Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam;
- sut i adeiladu ar lwyddiant blaenorol Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y Cydweithfeydd Clwstwr Lleol;
- cyfleoedd i ychwanegu gwerth, pennu blaenoriaethau, nodi unrhyw risgiau a lliniaru;
- datblygu'r cynllun clwstwr cyfan cyntaf;
- cysoni ei flaenoriaethau a'i gynlluniau lleol â Chynlluniau Strategol y Bwrdd Iechyd a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

37 Mae agendâu cyfarfodydd Cydweithfa Clwstwr Lleol a Grŵp Cynllunio Clystyrau Cyfan wedi eu strwythuro'n dda ac yn canolbwyntio ar faterion allweddol megis rheoli Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu clwstwr carlam, cynigion prosiect ac adolygu risgiau. Mae cyfarfodydd Grŵp Cynllunio Clystyrau Cyfan yn cael eu cadeirio'n dda, mae'r agenda'n rhedeg yn brydlon gyda thrafodaeth dda, a dadl ar faterion allweddol. Mae aelodau'n cyfranogi'n llawn mewn cyfarfodydd, gan godi ymwybyddiaeth o faterion, nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau a gofyn cwestiynau mewnweledol am yr wybodaeth a gyflwynir.

38 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sefydlu cydweithfeydd proffesiynol effeithiol sy'n galluogi practisiau meddyg teulu, deintyddol ac optometreg, fferyllfeydd cymunedol,

[5] Rhaglen strategol allweddol yn GIG Cymru i ddarparu elfen gofal sylfaenol gofal ar sail lleoedd, a ddarperir trwy gydweithfeydd a chlystyrau proffesiynol yw Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam.

[6] Ym mis Ebrill 2023, disodlodd Llais y saith Cyngor Iechyd Cymuned ledled Cymru.

nyrsio cymunedol a phroffesiynau perthynol i ofal iechyd i ddod at ei gilydd yn eu grwpiau proffesiwn penodol ar draws ôl troed clwstwr. Mae'r cydweithfeydd proffesiynol yn ystyried sut maent yn ymateb i strategaeth rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer eu proffesiwn priodol, ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei gynnig a dylunio atebion i ddiwallu anghenion pobl leol.

39 Mae Arweinwyr Cydweithfa Broffesiynol yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd mewn cyfarfodydd Cydweithfa Clwstwr Lleol. Mae'r Grŵp Cynllunio Clystyrau Cyfan hefyd yn ystyried adroddiadau ar gydweithfeydd proffesiynol a sefydlwyd yn ddiweddar. Roedd yr wybodaeth ddiweddaraf ym mis Gorffennaf 2023 am y cyfarfodydd cydweithfeydd proffesiynol deintyddol rhanbarthol yn nodi ymgysylltiad da gan weithwyr deintyddol proffesiynol gyda thrafodaeth onest ac awgrymwyd sawl syniad ynghylch sut y gallant weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr clwstwr a chymryd rhan mewn gweithgareddau clwstwr.

40 Ym mis Mawrth 2023, cytunodd y Bwrdd Iechyd ar Fframwaith Llywodraethu Bae Abertawe, a'i weithredu, er mwyn cefnogi ei broses o weithredu rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam. Mae hyn yn cynnwys Cylch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp Cynllunio Clystyrau Cyfan, Cydweithfeydd Clwstwr Lleol a chydweithfeydd proffesiynol a threfniadau adrodd ffurfiol i bawb. Er ei fod yn corffori'r trefniadau hyn, dylai ddefnyddio'r cyfle hefyd i fyfyrio ar aeddfedrwydd ei Gydweithfeydd Clwstwr Lleol ac effeithiolrwydd y trefniadau cyffredinol. **Rydym yn ystyried bod Argymhelliad 2, 2019 yn gyfredol a bod Argymhelliad 1, 2023 wedi ei ddisodli erbyn hyn.**

41 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i gryfhau arweinyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer arweinwyr clwstwr. Mae'n cefnogi rhai arweinwyr clwstwr i ddilyn rhaglenni arweinyddiaeth a ddarperir drwy Blatfform Arweinyddiaeth Gwella Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Fodd bynnag, dylai ymestyn y cyfle hwn i bob arweinydd clwstwr yn awr i'w galluogi nhw i gael gafael ar yr hyfforddiant a'r datblygiad sydd eu hangen ar gyfer eu swyddogaeth.

42 Daeth pandemig COVID-19 â chynnydd sylweddol mewn trosiant ymhlith arweinwyr clwstwr, ac roedd rhai ohonynt yn dal i fod yn gymharol newydd i'r swyddogaeth. Yn rhan o waith y Bwrdd Iechyd i ddatblygu sgiliau arwain y gweithlu gofal sylfaenol, mae'r Tîm Datblygu Clwstwr wedi cwblhau dadansoddiad o anghenion hyfforddi er mwyn asesu sgiliau a galluoedd ar draws y Cydweithfeydd Clwstwr Lleol. Mae wedi datblygu gwell hyfforddiant cynefino a chanllawiau ac mae hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith i ddatblygu cynllun hyfforddi a datblygu i gefnogi arweinwyr clwstwr yn eu swyddogaethau. **Rydym yn ystyried bod Argymhelliad 2b, 2019 wedi ei ddisodli.**

## Buddsoddi mewn gofal sylfaenol

43 Gwnaethom ystyried a yw'r bwrdd iechyd wedi mabwysiadu'r fframwaith ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar adeg ein gwaith yn 2019 i gefnogi'r broses o weithredu ei gynlluniau gofal sylfaenol a thrawsnewid gwasanaethau ehangach (Argymhelliad 3, 2019).

44 **Canfuom fod y Bwrdd Iechyd yn llwyddo i symud rhai adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, ond bod y cynnydd yn parhau i fod yn araf. Mae wedi cael trafferth sefydlu dealltwriaeth sylfaenol o wir gost gofal sylfaenol, ac**

**felly nid yw'n gallu dangos y cynnydd y mae'n ei wneud wrth symud adnoddau.**

45 Ar adeg ein gwaith blaenorol, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i gefnogi'r newid mewn adnoddau ariannol o wasanaethau acíwt eilaidd i ddarparu gwasanaethau cymunedol a sylfaenol[7]. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos bwriad strategol ac mae wedi trosglwyddo rhai adnoddau yn llwyddiannus o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, er enghraifft, ymarferwyr cyswllt cyntaf, awdioleg, a gwasanaethau ffisiotherapi ar draws Gydweithfeydd Clwstwr Lleol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, araf y bu'r cynnydd gyda staff y Bwrdd Iechyd yn gwneud sylwadau ar sawl her a rhwystr y bydd angen mynd i'r afael â nhw cyn gwneud rhagor o gynnydd. Mae'r rhain yn cynnwys effaith pandemig COVID-19, materion gydag ystad y Bwrdd Iechyd, a chyllid cyfalaf cyfyngedig. Dywedwyd wrthym hefyd, er bod hyd at £19 miliwn wedi ei drosglwyddo o gyllidebau gofal eilaidd i ofal sylfaenol yn rhan o'r broses newid adnoddau, yn aml, mae'r gwasanaeth yn parhau i fod â phwyslais gofal eilaidd.

46 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael trafferth sefydlu gwaelodlin ariannol ar gyfer ei fuddsoddiad a'i ddefnydd o adnoddau cyfredol mewn gofal sylfaenol a chymunedol. Ystyriwyd y ffordd y mae gwasanaethau yng nghyllidebau y Bwrdd Iechyd yn cael eu cyfrifyddu yn gymhleth ac yn anodd eu llywio, a rhoddwyd enghreifftiau ynghylch cyllid y Bwrdd Iechyd, wedi eu blaenoriaethu a'u dyrannu fesul Clwstwr a gynhwyswyd yng ngwariant Ysbytai a Gwasanaethau Cymunedol. Nododd y Bwrdd Iechyd fod ei Ffurflen Gostio Cymru a luniwyd yn 2019–20 yn dilyn newid Ffiniau Pen-y-bont ar Ogwr wedi darparu sefyllfa llinell sylfaen ddefnyddiol ar gyfer deall gwariant mewn gofal sylfaenol. Fodd bynnag, cafodd pandemig COVID-19 effaith berthnasol ar ffigurau blynyddoedd ariannol 2020–21 a 2021–22. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cwblhau gwaith i ddeall gwir gost gofal sylfaenol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022–23.

47 Ar ôl ei gwblhau, dylai hyn roi cyfle iddo sefydlu sefyllfa llinell sylfaen ariannol a gwerthuso a dangos y cynnydd y mae'n ei wneud wrth symud adnoddau. **Rydym yn ystyried bod Argymhelliad 3, 2019 yn gyfredol a bod Argymhelliad 2, 2023 wedi ei ddisodli erbyn hyn.**

## Y gweithlu gofal sylfaenol

48 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd archwilio a gweithredu ffyrdd o ehangu ei ddefnydd o wybodaeth bresennol am y gweithlu a sut y gall gasglu a defnyddio data gweithlu ychwanegol am y tîm gofal sylfaenol ehangach (Argymhelliad 6, 2019).

49 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i ddatblygu gofynion y gweithlu ar gyfer gofal sylfaenol, ond bod cael dealltwriaeth gynhwysfawr o'i**

[7] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2018) 025—Improving Value through Allocative and Technical Efficiency: Fframwaith Ariannol i Gefnogi Shifft Gwasanaethau Eilaidd Acíwt i Ddarparu Gwasanaeth Cymunedol/Sylfaenol.

**weithlu gofal sylfaenol yn dibynnu i raddau helaeth ar y data sydd ar gael ar lefel genedlaethol.**

50 Mae practisiau meddyg teulu y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno gwybodaeth am y gweithlu drwy System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru, ond â Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn unig y mae hyn yn ymwneud, ac felly dim ond i lywio trafodaeth ar weithlu gwasanaethau meddygol cyffredinol dyfodol y Bwrdd Iechyd y gellir ei ddefnyddio. Mae cynlluniau cenedlaethol ar waith i gyflwyno System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru i'r gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, ond nid yw hyn wedi digwydd eto.

51 Ar wahân i gasglu data absenoldeb oherwydd salwch a chydymffurfio â hyfforddiant, canfuom dystiolaeth gyfyngedig bod y Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r wybodaeth hon neu wybodaeth ychwanegol arall i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o'i weithlu gofal sylfaenol. Fodd bynnag, blaenoriaeth allweddol yng nghynllun Grŵp Cynllunio Clystyrau Cyfan 2023–26 yw ystyried gwaith Cydweithfa Clwstwr Lleol i fapio a chynllunio gofynion ei weithlu. Mae'r Grŵp Cynllunio Clystyrau Cyfan hefyd yn ymgysylltu ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn rhan o'i waith i ddatblygu Cynllun Gweithlu Strategol ar Gyfer Gofal Sylfaenol a fydd yn dylanwadu ar ddatblygiad Cynlluniau Tymor Canolig Integredig Lefel Clwstwr a Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024–25. **Rydym yn ystyried bod Argymhelliad 6, 2019 yn gyfredol a bod Argymhelliad 3, 2023 wedi ei ddisodli erbyn hyn.**

## Ffyrdd newydd o weithio

52 Gwnaethom ystyried a oedd y Bwrdd Iechyd wedi:

- gweithio gyda chlystyrau i gytuno ar fframwaith penodol i werthuso ffyrdd newydd o weithio, er mwyn darparu tystiolaeth o ganlyniadau sy'n fuddiol a llywio penderfyniadau ynghylch a ddylid ehangu'r modelau hyn (Argymhelliad 7a, 2019);
- casglu arfarniadau o ffyrdd newydd o weithio yn ganolog a rhannu'r negeseuon allweddol ar draws pob clwstwr (Argymhelliad 7b, 2019); ac
- os bu gwerthusiad cadarnhaol, dechrau ariannu modelau newydd o gyllid prif ffrwd yn hytrach na'r Gronfa Datblygu Gofal Sylfaenol (Argymhelliad 7c, 2019).

53 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd ddull rhesymol effeithiol o werthuso, rhannu dysg a negeseuon allweddol, a'i fod yn llwyddo i brif ffrydio ffyrdd newydd o weithio.**

54 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rhesymol effeithiol o werthuso a rhannu dysg a negeseuon allweddol o ffyrdd newydd o weithio. Mae cyfarfodydd rheolaidd gyda Chydweithfeydd Clwstwr Lleol i drafod perfformiad, cynnydd a chanlyniadau prosiectau clwstwr. Nid yw adroddiadau gwerthuso prosiectau yn dilyn templed penodol, ond mae rhai meysydd cyffredin y pwysleisir arnynt megis perfformiad, canlyniadau ac effaith, llywodraethu a risg, a manteision cost a goblygiadau ariannol. Mae'r dull hwn yn darparu tystiolaeth gadarn i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid atal neu ehangu mentrau newydd. Efallai y bydd

y Bwrdd Iechyd yn dymuno ystyried cyflwyno templed adrodd ffurfiol ar gyfer gwerthuso prosiectau, er mwyn sicrhau dull mwy cyson. **Rydym yn ystyried bod Argymhelliad 7a, 2019 wedi ei weithredu.**

55 Mae'r Grŵp Cynllunio Clystyrau Cyfan yn trafod adroddiadau a gwerthusiadau prosiect yn rheolaidd, gan nodi dysg a negeseuon allweddol o brosiectau llwyddiannus. Ceir cynrychiolaeth dda gan Gydweithfeydd Clwstwr Lleol yn y cyfarfodydd hyn, sy'n darparu dulliau ar gyfer rhannu'r wybodaeth hon ar lefel Clwstwr. Nodwn fod agendâu cyfarfodydd Cydweithfeydd Clwstwr Lleol yn cynnwys eitemau sefydlog ar sylwadau y Grŵp Cynllunio Clystyrau Cyfan a'r wybodaeth ddiweddaraf gan aelodau Cydweithfa Clwstwr Lleol ac arweinwyr cydweithfeydd proffesiynol, er mwyn helpu i hwyluso hyn. **Rydym yn ystyried bod Argymhelliad 7b, 2019 wedi ei weithredu.**

56 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio system tair haen i flaenoriaethu prosiectau i gael eu hariannu, gan ddefnyddio adnoddau presennol, buddsoddiad â blaenoriaeth, a chyllid ychwanegol pan nodir hynny. Mae wedi prif ffrydio nifer o brosiectau Cydweithfa Clwstwr Lleol yn llwyddiannus ar ôl troed clwstwr cyfan, gan gynnwys, Awdioleg Gofal Sylfaenol, Hyfforddiant a Gwasanaeth Gwell ar gyfer Camdriniaeth Ddomestig (IRISi), Wardiau Rhithwir, Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan, a Rhagsefydlu Canser. Mae hefyd wedi buddsoddi mewn mentrau 'symud i'r chwith'[8] ym maes iechyd y geg drwy ddatblygu swyddogaeth Ymarferwyr Deintyddol Cymunedol ac Optometreg Gymunedol. **Rydym yn ystyried bod Argymhelliad 7c, 2019 wedi ei weithredu.**

## Gwelededd ar lefel bwrdd a chanolbwyntio ar ofal sylfaenol

57 Gwnaethom ystyried y graddau y mae'r Bwrdd a/neu ei bwyllgorau yn ystyried yn rheolaidd faterion sy'n ymwneud â chynllunio, perfformiad, risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd. Wrth wneud hynny, gwnaethom ystyried yn benodol a yw'r Bwrdd Iechyd wedi:

- adlewyrchu gofal sylfaenol yn ei strategaethau a'i gynlluniau yn unol ag uchelgeisiau 'Cymru Iachach';
- datblygu cynllun gweithredu er mwyn codi proffil gofal sylfaenol yn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys sicrhau bod eitem sefydlog ynghylch gofal sylfaenol ar agendâu y Bwrdd (Argymhelliad 4, 2019);
- sicrhau bod cynnwys ei adroddiadau perfformiad Bwrdd a phwyllgorau yn cwmpasu gofal sylfaenol yn ddigonol (Argymhelliad 5a, 2019); a
- sicrhau bod adroddiadau i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn rhoi digon o sylwebaeth ar y cynnydd o ran cyflawni cynlluniau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd, a'r

[8] Mae 'symud i'r chwith' yn golygu trin mwy o gleifion mewn gofal sylfaenol, neu yn y gymuned a lleihau atgyfeiriadau a thriniaeth mewn gofal eilaidd.

graddau y mae'r cynlluniau hynny yn arwain at well brofiadau a chanlyniadau i gleifion (Argymhelliad 5b, 2019).

58 Canfuom, **er bod gofal sylfaenol yn ymddangos yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd, nad oes strategaeth gofal sylfaenol pwrpasol na gweledigaeth hirdymor. Cyfyngedig yw'r oruchwyliaeth a'r gwaith craffu ar heriau sy'n wynebu gofal sylfaenol yn y Bwrdd, a gallai ystyriaeth mewn pwyllgorau gael ei gwreiddio'n fwy systematig mewn busnes arferol. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol ar gyfer monitro'r broses o gyflawni cynlluniau gofal sylfaenol, ond mae angen cryfhau'r gwaith goruchwylio perfformiad.**

59 Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023–26 y Bwrdd Iechyd yn nodi gweledigaeth a chanlyniadau gofal sylfaenol a chymunedol y sefydliad. Canolbwyntio ar ddatblygu yn barhaus a chyflawni Model Gofal Sylfaenol i Gymru[9], parhau i weithredu'r rhaglen diwygio contractau (**gweler paragraff 6**), a Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam. Mae'n amlwg bod y cynllun yn gyson ag uchelgais 'Cymru Iachach' ac mae'n pwysleisio sut y bydd y Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid yn trawsnewid gofal sylfaenol a gofal cymunedol drwy gryfhau integreiddiad â gofal eilaidd, er mwyn cyflawni 'dull system gyfan' a chefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau. Fodd bynnag, mae ein hadroddiad, Asesiad Strwythuredig 2023, yn amlygu bod strategaeth hirdymor ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn fwlch. Yn ogystal â hynny, mae'r Strategaeth Ystadau 10 mlynedd a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol pum mlynedd yn canolbwyntio'n benodol ar wasanaethau ysbyty. Nid oes cynlluniau hirdymor ar gyfer gofal sylfaenol.

60 Nid yw materion sy'n ymwneud â gofal sylfaenol wedi eu gwreiddio ym musnes arferol y Bwrdd a'r pwyllgorau gymaint ag sy'n bosibl. Nid yw agendâu y Bwrdd yn cynnwys eitem sefydlog ar ofal sylfaenol. Mae'r Bwrdd yn cael rhai adroddiadau sy'n cyfeirio at wasanaethau gofal sylfaenol megis Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, adroddiad ar gynnydd y cynllun blynyddol, ac i raddau cyfyngedig Adroddiad Perfformiad Integredig. Fodd bynnag, nid oes unrhyw wybodaeth diweddaraf pwrpasol i'r Bwrdd am ofal sylfaenol.

61 Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cyfeirio at wasanaethau gofal sylfaenol, ac mae rhaglenni gwaith yn cyfeirio at agweddau ar ofal sylfaenol. Er enghraifft, gwiriad chwe mis ar ôl gwneud taliadau gan y Pwyllgor Archwilio, adolygiad o'r gallu i gael gafael ar Ddeintyddiaeth a Meddygon Teulu y GIG gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a Sicrwydd Ansawdd y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, ac adroddiad Gwella Fframwaith blynyddol a'r wybodaeth diweddaraf penodol am Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglenni gwaith yn nodi'r cyfarfod arfaethedig i ystyried rhai o'r eitemau hyn.

62 Mae'r Grŵp Gofal Sylfaenol a Therapïau yn cyflwyno adroddiad chwarterol ar y prif bwyntiau i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch sy'n nodi digwyddiadau, cwynion, pryderon am berfformiad ac unrhyw faterion ansawdd a diogelwch, a risgiau.

[9] Dull system gyfan yw Model Gofal Sylfaenol i Gymru. Mae'n rhan o system iechyd a llesiant lle mae pobl yn cael gafael ar amrywiaeth o ofal a chymorth di-dor gartref neu'n agos eu cartref, ar sail eu hanghenion unigryw a'r hyn sy'n bwysig iddynt.

Heblaw am yr adroddiad ar y Prif Bwyntiau Ansawdd a Diogelwch, gwan yw'r sylw a roddir i ofal sylfaenol mewn adroddiadau perfformiad, cyllid a gweithlu. Rydym hefyd yn nodi gwaith craffu a goruchwylio gwybodaeth gofal sylfaenol cyfyngedig a gyflwynir i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn gyffredinol. **Rydym yn ystyried bod Argymhelliad 4, 2019 yn gyfredol a bod Argymhelliad 4, 2023 wedi ei ddisodli erbyn hyn.**

63 Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn ystyried Adroddiad Perfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd fel mater o drefn sy'n nodi ei berfformiad o'i gymharu â mesurau cyflawni cenedlaethol, blaenoriaethau gweinidogol, a mesurau ansawdd a diogelwch lleol. Mae nifer gyfyngedig o fesurau perfformiad gofal sylfaenol o hyd sy'n ymwneud yn bennaf â niwed yn sgil gostyngiad mewn gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â COVID, er enghraifft, uwchgyfeirio a lefelau gweithgarwch Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Deintyddol, Fferylliaeth, aros yn hwy na 14 wythnos ac ati. Nodwn hefyd un mesur perfformiad gofal sylfaenol a gynhwysir ar ddangosfwrdd Adroddiad Perfformiad Integredig sy'n ymwneud â chleifion deintyddol yn ailddechrau derbyn gofal deintyddol sylfaenol y GIG. Er bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn rhoi trosolwg o'r perfformiad yn ystod y mis/cyfnod, nid yw'n cynnwys targedau perfformiad nac unrhyw sylwebaeth i alluogi rhywun i ddeall a monitro'r perfformiad gofal sylfaenol yn effeithiol. Yn ogystal â hynny, nid yw'n rhoi digon o eglurder ar gamau i wella perfformiad, nac effaith y camau a gymerwyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu adnewyddu'r Adroddiad Perfformiad Integredig, ac yn rhan o'r gwaith hwn dylai gynyddu ei bwyslais ar berfformiad gofal sylfaenol. **Rydym yn ystyried bod Argymhelliad 5a, 2019 yn gyfredol a bod Argymhelliad 5.1, 2023 wedi ei ddisodli erbyn hyn.**

64 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol ar gyfer monitro cynnydd cynlluniau gofal sylfaenol. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf chwarterol am gynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig/Cynllun Blynyddol fel mater o drefn, sy'n amlinellu'r cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau ar gyfer pob grŵp gwasanaeth gan gynnwys Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Therapïau. Mae'r diweddariad yn darparu crynodeb defnyddiol o'r holl flaenoriaethau a'u statws cyflawni. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth fanylach ar gyfer blaenoriaethau nad ydynt ar y trywydd iawn, gan gynnwys y rheswm dros yr oedi, swyddogion cyfrifol a lliniaru gweithredoedd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd fod yn gliriach ar fesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac adrodd er mwyn helpu i ddeall pa effaith neu wahaniaeth y mae'n ei wneud ac a yw'n arwain at ganlyniadau a phrofiadau gwell i gleifion. **Rydym yn ystyried bod Argymhelliad 5b, 2019 yn gyfredol a bod Argymhelliad 5.2, 2023 wedi ei ddisodli erbyn hyn.**

## Y capasiti a'r gallu i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol

65 Gweithredol ystyried y graddau y mae gan Dîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog y Bwrdd Iechyd y capasiti a'r gallu priodol (o ran gwybodaeth, sgiliau a phrofiad) i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn ogystal â rheoli

anghenion gweithredol a busnes o ddydd i ddydd. Wrth wneud hynny, gwnaethom ystyried a oes gan y Tîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog:

- strwythur ag adnoddau priodol, sy'n cael ei adolygu, gyda llinellau atebolrwydd clir;
- trefniadau ar gyfer nodi a chefnogi anghenion dysgu a datblygu, a threfniadau cynllunio olyniaeth parhaus.

66 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd strwythur gofal sylfaenol effeithiol ar y cyfan, gyda llinellau atebolrwydd clir. Fodd bynnag, mae adnoddau a chapasiti yn ei Dîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog yn parhau i fod dan bwysau oherwydd blaenoriaethau lleol a chenedlaethol sy'n cynyddu, ac mae angen cryfhau'r trefniadau cynllunio olyniaeth.**

67 Mae gan Grŵp Gwasanaeth Sylfaenol, Cymunedol a Therapïau y Bwrdd Iechyd linellau atebolrwydd clir i'r Prif Swyddog Gweithredu, sydd wedi dirprwyo awdurdod ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol ac sy'n aelod o'r Bwrdd. Mae'r swyddogaeth yn cwmpasu holl wasanaethau y Bwrdd Iechyd ac er bod hyn yn dod â mantais o drosolwg 'system gyfan' wrth ddarparu gwasanaethau, mae galwadau sy'n cystadlu rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd, a chanfyddiad ymhlith rhai o aelodau staff y Bwrdd Iechyd bod y pwyslais ar berfformiad a risgiau gofal eilaidd yn cael blaenoriaeth dros ofal sylfaenol yn aml. Er hynny, cefnogir y Prif Swyddog Gweithredu gan strwythur rheoli effeithiol sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Cyswllt ar gyfer Gofal Sylfaenol, Pennaeth Gofal Sylfaenol a Phennaeth Datblygu Clwstwr.

68 Cyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaethau Cyswllt, sef Pennaeth Gofal Sylfaenol a Phennaeth Datblygu Clystyrau a gefnogir gan uwch-dîm rheoli, sy'n rheoli'r tîm gofal sylfaenol a datblygu clystyrau. Mae gan y timau staff profiadol a galluog sy'n cefnogi gwaith y Cydweithfeydd Clwstwr Lleol ochr yn ochr â chyflawni blaenoriaethau cenedlaethol megis diwygio'r contract gofal sylfaenol. Er bod uwch-arweinwyr Gofal Sylfaenol yn ystyried y lefelau presennol o adnoddau yn ddigonol, mae llwythi gwaith cynyddol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn rhoi pwysau ar rai o'r staff, a gallai effeithio ar eu gallu i reoli'r anghenion gweithredol a busnes o ddydd i ddydd. Cymhlethir hyn ymhellach pan fo'r timau'n mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chyflwr yr ystad gofal sylfaenol ac yn ymdrin â phractisiau meddygon teulu sy'n cau neu'n adleoli. Ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd Iechyd un practis meddyg teulu a oruchwylir gan y Cyfarwyddwr Meddygol. Mae'r llwyth gwaith ychwanegol i gefnogi'r practis hwn a reolir yw creu rhagor o faterion adnoddau yn y Tîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol **(Argymhelliad 6.1, 2023)**

69 Er bod cynllunio olyniaeth yn rhan o drafodaethau arfarnu uwch-arweinwyr gofal sylfaenol, cyfyngedig oedd y dystiolaeth a ganfuom fod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau olyniaeth ar gyfer y Tîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol. Yn ogystal â chyflwyno rhai risgiau tymor byr pan nad yw staff presennol yn gallu cymryd lle aelodau o'r staff sy'n absennol yn annisgwyl, mae risgiau tymor hwy i wydnwch y tîm hefyd, megis colli arbenigedd a gwybodaeth, colli parhad busnes, a swyddi gwag hirdymor mewn swyddogaethau allweddol. Mae datblygu cynllun gweithlu gofal sylfaenol yn rhoi cyfle i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r risgiau hyn **(Argymhelliad 6.2, 2023)**.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

**Mae Arddangosiad 3 yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Cyfyngir ein tystiolaeth i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.**

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2022–25 a 2023–26 (os ydynt ar gael), a strategaethau corfforaethol neu gynlluniau eraill sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd a phob clwstwr gofal sylfaenol.<br>• Dadansoddiad o'r buddsoddiad presennol a'r defnydd o adnoddau mewn gofal sylfaenol.<br>• Adroddiadau sy'n dangos adolygiadau o'r buddsoddiad mewn gofal sylfaenol.<br>• Cyfrifo sefyllfa llinell sylfaen a thystiolaeth o gynnydd ers y sefyllfa llinell sylfaen diwethaf i ddangos llwyddiant o ran symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a gofal cymunedol.<br>• Agendâu a phapurau gan Fwrdd a Phwyllgor(au) sy'n goruchwylio gofal sylfaenol.<br>• Adroddiad blynyddol gofal sylfaenol<br>• Adroddiadau y Bwrdd a'r pwyllgorau sy'n amlinellu'r perfformiad a'r cynnydd o ran cyflawni cynlluniau mewn gofal sylfaenol.<br>• Data gweithlu sy'n ymwneud â gofal sylfaenol.<br>• Gwerthusiadau o fodelau gwasanaeth newydd mewn gofal sylfaenol.<br>• Enghreifftiau o ddysg a rennir mewn cysylltiad â modelau gwasanaeth newydd ar draws clystyrau<br>• Rhestr o wasanaethau gofal sylfaenol sy'n derbyn cyllid prif ffrwd<br>• Gwerthusiadau o glystyrau a chynlluniau gweithredu, er mwyn cryfhau cymorth.<br>• Agendâu a phapurau o gyfarfodydd rhwydwaith clwstwr.<br>• Adroddiad sy'n amlinellu trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth Clystyrau.<br>• Tystiolaeth i ddangos bod arweinwyr clwstwr wedi dilyn cwrs Arweinwyr Gofal Sylfaenol Hyderus.<br>• Modelu/meincnodi y capasiti a'r galw am adnoddau gofal sylfaenol. |
| Cyfweliadau | Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r canlynol:<br>• Y Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n gyfrifol am Ofal Sylfaenol<br>• Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd<br>• Cyfarwyddwr Grŵp—Grŵp Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol a Therapïau |

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| | • Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Cyswllt—Grŵp Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol a Therapïau<br>• Cyfarwyddwr Meddygol—Grŵp Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol a Therapïau<br>• Cyfarwyddwr Nyrsio—Grŵp Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol a Therapïau<br>• Arweinydd/arweinwyr clwstwr<br>• Partner Busnes Cyllid—Grŵp Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol a Therapïau |
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi'r cyfarfod(ydd) a ganlyn:<br>• Grŵp Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol a Therapïau Gorffennaf 2023<br>• Grŵp Cynllunio Clwstwr Cyfan Gorffennaf 2023 |

# Atodiad 2

## Crynodeb o'r cynnydd o'i gymharu â'n hargymhellion archwilio 2019

**Mae Arddangosyn 4 yn nodi'r argymhellion a wnaethom yn 2019 a chrynodeb o'r cynnydd.**

| Argymhellion | Cynnydd |
|---|---|
| **Cynllunio ariannol**<br>A1 Nid yw cynlluniau y Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal sylfaenol yn cael eu cefnogi gan ddadansoddiad ariannol manwl sy'n golygu nad yw'n glir sut y caiff y cynlluniau eu hariannu. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu dadansoddiad cost ariannol clir i gefnogi ei gynlluniau gofal sylfaenol er mwyn sicrhau bod ei gynlluniau'n fforddiadwy a phennu sut y bydd yn ariannu unrhyw newidiadau arfaethedig. | **Gweithredwyd**—gweler paragraffau 29–32 |
| **Clystyrau gofal sylfaenol**<br>A2 Canfuom amrywiaeth yn aeddfedrwydd clystyrau gofal sylfaenol, a'r cwmpas i wella prosesau arweinyddiaeth/caffael clystyrau/ac ati. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) adolygu aeddfedrwydd cymharol y clystyrau, er mwyn datblygu a gweithredu cynllun i gryfhau ei gefnogaeth i glystyrau lle bo angen; a<br>b) sicrhau bod pob arweinydd clwstwr yn dilyn y cwrs Arweinwyr Gofal Sylfaenol Hyderus. | **Cyfredol**—gweler paragraffau 35–41<br><br>**Disodlwyd**—gweler paragraffau 42–43 |
| **Buddsoddi mewn gofal sylfaenol**<br>A3 Ar wahân i newidiadau bach i'r gwasanaeth, ni all y Bwrdd Iechyd ddangos adnoddau'n symud o leoliadau eilaidd i leoliadau sylfaenol a chymunedol. Dylai'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu'r fframwaith ariannol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r broses o weithredu ei gynlluniau gofal sylfaenol a thrawsnewid gwasanaethau ehangach. | **Cyfredol**—gweler paragraffau 46–48 |

| Argymhellion | Cynnydd |
|---|---|
| **Goruchwylio gofal sylfaenol**<br>A4 Canfuom gwmpas i godi proffil gofal sylfaenol yn y Bwrdd Iechyd, yn enwedig ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn codi proffil gofal sylfaenol yn y Bwrdd Iechyd. Gallai camau gweithredu gynnwys sicrhau bod eitem sefydlog am ofal sylfaenol ar agendâu y Bwrdd. | **Cyfredol**—gweler paragraffau 61–63 |
| A5 Canfuom fod lle i wella'r ffordd y caiff perfformiad gofal sylfaenol ei fonitro a'i adrodd ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) sicrhau bod cynnwys ei adroddiadau perfformiad Bwrdd a phwyllgorau yn cwmpasu gofal sylfaenol yn ddigonol; a<br>b) sicrhau bod adroddiadau i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn rhoi digon o sylwebaeth ar y cynnydd o ran cyflawni cynlluniau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd, a'r graddau y mae'r cynlluniau hynny yn arwain at well brofiadau a chanlyniadau i gleifion. | **Cyfredol**—gweler paragraff 64<br><br>**Cyfredol**—gweler paragraff 65 |
| **Y gweithlu gofal sylfaenol**<br>A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd archwilio a gweithredu ffyrdd o ehangu ei ddefnydd o wybodaeth bresennol am y gweithlu ac archwilio sut y gall gasglu a defnyddio data gweithlu ychwanegol am y tîm gofal sylfaenol ehangach. | **Cyfredol**—gweler paragraffau 51–52 |
| **Ffyrdd newydd o weithio**<br>A7 Er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau tuag at weithredu ffyrdd newydd o weithio, mae angen mwy o gynnydd i werthuso effeithiolrwydd y modelau newydd hyn ac i brif ffrydio eu cyllid. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) weithio gyda'r clystyrau i gytuno ar fframwaith penodol i werthuso ffyrdd newydd o weithio, er mwyn darparu tystiolaeth o ganlyniadau sy'n fuddiol a llywio penderfyniadau ynghylch a ddylid ehangu'r modelau hyn; | **Gweithredwyd**—gweler paragraff 55<br><br>**Gweithredwyd**—gweler paragraff 56 |

| Argymhellion | Cynnydd |
| --- | --- |
| b) casglu arfarniadau o ffyrdd newydd o weithio yn ganolog a rhannu negeseuon allweddol ar draws pob clwstwr; ac<br>c) os ceir gwerthusiad cadarnhaol, dechrau ariannu'r modelau newydd hyn o gyllid prif ffrwd yn hytrach na'r Gronfa Datblygu Gofal Sylfaenol. | **Gweithredwyd**—gweler paragraff 57 |

# Atodiad 3

## Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio

**Mae Arddangosyn 5 yn nodi ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion archwilio.**

| **Argymhelliad** | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|
| **A1** Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu aeddfedrwydd cymharol clystyrau, er mwyn myfyrio ar y trefniadau presennol, mynd i'r afael ag unrhyw fylchau posibl a chryfhau cefnogaeth y Bwrdd Iechyd yn ôl yr angen. | Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes yn cael sesiynau Adolygiad gan Gymheiriaid blynyddol gyda Byrddau Iechyd eraill i asesu'r aeddfedrwydd. Hefyd, yng ngwanwyn 2024, bydd offeryn hunanasesu yn cael ei lansio ar gyfer y Bwrdd Iechyd a'r clystyrau unigol. Hefyd, mae'n ofynnol inni gwblhau a chyflwyno'r cynnydd o'i gymharu â Cherrig Milltir Gweinidogol. Bydd canlyniadau y rhain yn cael eu defnyddio i barhau i ddatblygu ein dull o weithredu rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam. | Adolygiad gan Gymheiriaid Mawrth 2024<br>Hunanasesiad—Mehefin 2024.<br><br>Asesiad Cerrig Milltir ar Ddiwedd y Flwyddyn—Mehefin 2024<br><br>Ystyried y canlyniadau uchod i lywio datblygiad y rhaglen—Medi 2024 | Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Cyswllt |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **A2** Dylai'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio gwybodaeth gyllidebol 2023–24 fel llinell sylfaen ar gyfer cost gofal sylfaenol er mwyn sicrhau bod modd adrodd yr adnoddau a newidir. | Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd costau y Gwasanaethau Gofal Iechyd Sylfaenol yn rhan o'r ffurflenni costio a Ffurflenni Monitro Llywodraeth Cymru, felly mae'n gallu olrhain y costau hyn yn hanesyddol. Bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu'r wybodaeth am wariant Gofal Sylfaenol a adroddir yn fewnol gan ystyried yr argymhelliad a chytuno ar fodel adrodd ar gyfer y dyfodol. Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad yn goruchwylio'r gwaith hwn a bydd yn sicrhau bod buddsoddiadau a newidiadau mewn costau yn cael eu holrhain drwy'r flwyddyn i lywio hyn. | Trwy gydol 2024/2025<br>Adolygwyd ym mis Mawrth 2025. | Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad |
| **A3** Dylai'r Bwrdd Iechyd archwilio a gweithredu ffyrdd o ehangu ei ddefnydd o wybodaeth bresennol am y gweithlu ac archwilio sut y gall gasglu data gweithlu ychwanegol am y tîm gofal sylfaenol ehangach. | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau defnyddio data y gweithlu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i ddeall y timau amlddisgyblaethol sydd ar gael mewn practisiau meddyg teulu. Pan fydd yr wybodaeth am y galw a'r capasiti ar gael, bydd hyn yn rhoi rhagor o wybodaeth am sgiliau ac anghenion datblygu y gweithlu, a fydd yn cael ei defnyddio i ddatblygu rhaglen waith yr academi gofal sylfaenol. O ran contractwyr gofal sylfaenol eraill, byddwn yn cynyddu hyn i'w hystyried ar gyfer y mandad negodi contract cenedlaethol i'r graddau y | Medi 2024 | Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Cyswllt |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mae'r wybodaeth hon ar gael a byddwn yn edrych ar yr hyn y mae'n bosibl ei gasglu'n lleol. | | |
| **A4** Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn codi proffil gofal sylfaenol yn y sefydliad. | Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael dwy sesiwn friffio ar fferylliaeth/deintyddiaeth a Datblygu Clwstwr Carlam. Hefyd, mae'r wybodaeth am ofal sylfaenol a ddarperir i'r pwyllgor perfformiad a chyllid wedi ei chryfhau. Adroddir y lefelau uwchgyfeirio i alwadau gweithredol dyddiol. Mae swyddog cyfathrebu yn sicrhau bod erthyglau rheolaidd sy'n dathlu gwaith gwasanaethau sylfaenol a chymunedol/clystyrau yn cael eu rhoi ar y fewnrwyd. Bydd cynllun gweithredu i adeiladu ar y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu a'i gytuno arno gyda'r Is-gadeirydd. | Medi 2024 | Prif Swyddog Gweithredu/Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Cymunedol Sylfaenol |
| **A5** Dylai'r Bwrdd Iechyd wella'r broses o oruchwylio perfformiad mewn gofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau drwy wneud yr hyn a ganlyn:<br>5.1 cynyddu'r sylw ar berfformiad gofal sylfaenol yn ei Adroddiad Perfformiad Integredig;<br>5.2 cynyddu'r pwyslais ar ganlyniadau a phrofiad. | Cynhwysir rhywfaint o ddata gofal sylfaenol yn yr Adroddiad Perfformiad Integredig eisoes o dan yr adran trosolwg o ofal sylfaenol a chymunedol.<br><br>Cynhelir adolygiad yn Chwarter 1 i benderfynu pa un o'r mesurau fydd yn cael | Mehefin 2024 | Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ei gadw a pha rai fydd yn cael eu dileu. Rhoddir ystyriaeth hefyd i ychwanegu mesurau newydd er mwyn adlewyrchu datblygiadau o wasanaethau sylfaenol a chymunedol. Bydd hyn yn cael ei gwblhau yn ystod Chwarter 1 hefyd a bydd y mesurau ychwanegol yn cynnwys cyflwyniadau naratif a graffigol sy'n gymesur â gweddill yr Adroddiad Perfformiad Integredig.<br><br>Gwneir adroddiad blynyddol ar ofal sylfaenol i'r pwyllgor perfformiad a chyllid bob blwyddyn, a chytunir ar ei gynnwys gyda chadeirydd y pwyllgor. | Medi 2024 | Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Cyswllt |
| A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei Dîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol drwy:<br>6.1 adolygu'r adnoddau sydd ar gael er mwyn sicrhau bod ganddo'r capasiti angenrheidiol i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, ochr yn ochr â diwallu anghenion gweithredol a busnes o ddydd i ddydd; a<br>6.2 datblygu cynllun olyniaeth. | 6.1 Mae adnoddau ychwanegol eisoes wedi eu gwneud ar gael i'r tîm gofal sylfaenol, i gryfhau ac ehangu'r strwythur. Mae hyn wedi cynnwys uwch-reolwyr ychwanegol, Dirprwy reolwyr gofal sylfaenol a datblygu clwstwr a staff contractau ychwanegol. Mae swyddog ychwanegol yn cael ei recriwtio hefyd i gefnogi rheolwr yr ystadau. Fodd bynnag, mae'r rhaglen diwygio contractau cenedlaethol yn creu llwyth gwaith sylweddol a bydd ymarfer meincnodi yn cael | Ymgymryd ag ymarfer meincnodi 30 Mehefin 2024<br><br>Adolygu ac ystyried canlyniadau i lywio gwaith o gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol—30 Medi 2024 | Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Cyswllt |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ei wneud gyda Byrddau Iechyd eraill i lywio adolygiad.<br><br>6.2 Yn rhan o'r adnoddau ychwanegol uchod, crëwyd swydd dirprwy bennaeth gofal sylfaenol a dau aelod o staff band 7 i weithredu fel dirprwy reolwyr. Mae hyn wedi cryfhau'r strwythur i greu cyfleoedd dilyniant gyrfa a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau. Hefyd, mae rhaglen datblygu uwch-reolwyr yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2024, a bydd yn ymgorffori sgiliau arwain. | Gweler y sylwebaeth o dan adran 6.2. am y newidiadau sydd eisoes wedi eu gwneud. | |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall,

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan https://www.audit.wales/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.